WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr David Waggett
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeistrefol
Y Ganolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 2 Hydref 2013 |
| **Ein cyfeirnod** | 452A2013 IAL1\V1 |
| **Rhif Ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | info@wao.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **21** |

Annwyl David

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau helaethach

Deuthum i'r casgliad hwn am fod fy ngwaith archwilio ac asesu wedi canfod bod Amcanion Gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, sef 'Blaengynllun Cam 1 Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-14' (y Cynllun), yn bodloni gofynion y Mesur. Mae'r Cynllun yn esbonio pam a sut y dewiswyd y blaenoriaethau a sut mae'r Amcanion Gwella yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor ac yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd lle mae angen gwella ansawdd bywyd pobl leol.

Nodir y sail dros ddewis pob un o'r amcanion gwella yn glir yn yr adran 'pam ein bod wedi gwneud hyn yn flaenoriaeth'. Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am adborth defnyddwyr gwasanaethau, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, argymhellion rheoleiddwyr, barn partneriaid strategol, cynnwys rhanddeiliaid a materion cymunedol. Ym mis Mai 2013, gwnaeth y Cyngor hefyd gynnal arolwg fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ar ei amcanion gwella drwy'r wefan. Nododd fod y gefnogaeth i Amcanion Gwella unigol yn amrywio o 64 y cant i 89 y cant.

Mae pob Amcan Gwella yn cynnwys cyfres o gamau i'w cyflawni yn 2013-14. Fodd bynnag, cymysg yw ansawdd y cynlluniau gweithredu. Nid yw pob un o'r camau gweithredu yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Amcanion Gwella ac felly ychydig o gyfraniad a wnânt o ran cyflawni'r Amcanion hynny. Er enghraifft, mae'r amcan i wella gwasanaethau drwy ddatblygu sianeli mynediad digidol yn canolbwyntio ar alluogi dinasyddion i gael gafael ar wasanaethau'r cyngor fel y mynnont, ond hefyd yn y ffordd fwyaf effeithlon neu gosteffeithiol. Mae'r camau a gymerir yn canolbwyntio ar ymgynghori, hyrwyddo ac ymgysylltu. Dywed y Cyngor wrthym y caiff gwybodaeth sy’n ymwneud â gweithgareddau i wella effeithlonrwydd neu gosteffeithiolrwydd neu ddangos arbedion cost ei hychwanegu’n ddiweddarach.

Mae’r Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau i’r cysylltiadau rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, y data sylfaenol a'r targedau ar gyfer gwella sy'n gysylltiedig â hwy, ond mae rhai meysydd yn anghyson o hyd ac nid oes tystiolaeth yn eu hategu bob tro. Mae rhai cysylltiadau yn glir iawn ac maent yn dangos effaith arfaethedig gwelliant, megis yr Amcan Gwella i wella lefelau presenoldeb mewn ysgolion. Mae'r camau a'r mesurau yn canolbwyntio ar bresenoldeb ac mae'r canlyniad yn y pen draw yn glir. Mewn Amcanion Gwella eraill, nid yw'r mesurau ar gyfer asesu a oes unrhyw un yn well ei fyd mor fanwl nac effeithiol. Er enghraifft, yr Amcan Gwella i gynyddu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth i ddinasyddion Blaenau Gwent drwy roi cymorth uniongyrchol i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Yma, mae'r mesurau yn canolbwyntio'n gulach ar raglenni sy'n bodoli eisoes ond ni chaiff unrhyw wybodaeth ei chynnwys am yr adnoddau a neilltuir ar gyfer y gweithgaredd hwn ac ni phennwyd unrhyw dargedau ar gyfer 2013-14 mewn perthynas ag unrhyw amcan gwella. Mae hyn yn hynod berthnasol gan fod adnoddau yn lleihau ac nid yw’r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni ei dargedau’n llawn yn y gorffennol.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd yn ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Mae'r gofyniad i lunio Amcanion Cydraddoldeb yn cyd-fynd yn agos â'r elfen ‘Tegwch’ y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Gwnaethom nodi bod Cynllun Gwella'r Cyngor yn canolbwyntio ar wasanaethau i grwpiau a gaiff eu diogelu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Ymhlith yr enghreifftiau mae Amcanion Gwella i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, pobl hŷn agored i niwed a phlant y mae perygl na fyddant mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).

## Er bod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn ystod y mis diwethaf, nid yw wedi bod yn ddigon cyflym na chadarn, ac ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, rwy'n dal i gredu bod y Cyngor yn annhebygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Dros y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi nodi, oni bai bod y Cyngor yn mynd i'r afael ag anghysondebau a gwendidau yn y ffordd y caiff ei redeg, ei bod yn annhebygol y bydd y Cyngor yn cyflawni unrhyw welliant sylweddol cynaliadwy. Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013, deuthum i'r casgliad, er mwyn bod yn llwyddiannus a sicrhau'r gwelliannau a geisiwyd, fod angen arweinyddiaeth effeithiol, trefniadau rheoli a chyflawni cyson ar y Cyngor er mwyn sicrhau bod y newidiadau y mae'n dechrau arnynt yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion. Gyda llai o adnoddau ar gael i gefnogi gwelliant, bodolaeth rhai gwasanaethau sy'n methu, perfformiad gwael a gallu cyfyngedig, wynebodd y Cyngor heriau sylweddol wrth gyflawni gwell canlyniadau i'w ddinasyddion.

Yn seiliedig ar fy ngwaith asesu gwelliant mwyaf diweddar, credaf, er bod y Cyngor bellach yn gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae'n eu hwynebu, nid yw'r camau hyn wedi bod yn ddigon cyflym nac effeithiol. Gan fod cymaint ar ôl i'w wneud, nid yw'r Cyngor yn debygol o wneud y trefniadau sydd eu hangen i wella na chyflawni'r newid ar y raddfa a'r cyflymder sydd ei angen yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

**Mae systemau arwain a gwneud penderfyniadau yn dal i fod yn rhy anghyson ac araf ac nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â'r pwysau ariannol y rhagwelir y bydd yn eu hwynebu a pherfformiad anghyson o ran gwasanaethau yn ddigon dybryd. Er bod y Cyngor bellach yn cyflwyno cynigion i leihau gwariant, nid yw rhai o'r rhain yn gadarn, gallent gael effaith andwyol ar welliant ac nid yw'n sicr a wnânt gyflawni'r arbedion mawr sydd eu hangen.**

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol mawr yn 2013-14, 2014-15 a thu hwnt, ac mae angen iddo leihau ei wariant bron £14 miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb ar 31 Mawrth 2015. Mewn blynyddoedd diweddar, defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn i ymdrin â gorwariant refeniw ac nid yw rhai gwasanaethau wedi lleihau gwariant yn unol â thargedau arbedion. Ddiwedd 2012-13 amcangyfrifodd y Cyngor ei fod wedi gorwario tua £0.5 miliwn ar gyllideb refeniw 2012-13. Mae defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â diffygion cyllidebol dros y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod Cronfa wrth Gefn y Cyngor wedi gostwng o £5.715 miliwn yn 2009-10 i £3.509 miliwn yn 2010-11 a dim ond £2.259 miliwn yn 2011-12.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13, roedd y Cyngor wedi gorwario tua £0.1 miliwn ar ei gyllideb refeniw, gan leihau Cronfa'r Cyngor ymhellach. Fodd bynnag, yn ystod 2012-13, bu modd i'r Cyngor drosglwyddo £4.209 miliwn o'i Gyfrif Refeniw Tai gan adael £6.368 miliwn yng Nghronfa Wrth Gefn y Cyngor ar 31 Mawrth 2013. Hyd yn oed gyda'r cynnydd yng Nghronfa Wrth Gefn y Cyngor, yn seiliedig ar ragolygon presennol o wariant a, chan dybio y byddai'r lefel gorwario bresennol yn parhau, byddai'r Cyngor wedi defnyddio'r holl gronfeydd wrth gefn erbyn diwedd 2014-15 oni bai ei fod yn gallu cytuno ar arbedion sylweddol a'u cyflawni erbyn diwedd 2014.

Er bod pob cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol, mae Blaenau Gwent yn wynebu cryn dipyn yn fwy o her os yw am gyflawni tua £14 miliwn o arbedion dros y 18 mis nesaf, gyda dim ond £6.368 yng Nghronfa Wrth Gefn y Cyngor ac o ystyried y cynnydd araf a wnaed wrth gytuno ar gynlluniau arbed tan yn ddiweddar. Yn ei adroddiad i'r Cyngor ar 2 Awst 2013, nododd y Prif Weithredwr mai un o flaenoriaethau pennaf y Cyngor oedd nodi, asesu risg, cyflawni a sicrhau hyd at £10 miliwn o arbedion ar gyfer 2014-15. Nododd adroddiad y Prif Weithredwr fod angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn goroesi tan y flwyddyn ariannol nesaf a darparu rhai sylfeini i'w alluogi i fod mewn sefyllfa fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Nododd adroddiad y Prif Swyddog Cyllid, a gyflwynwyd hefyd i'r Cyngor ar 2 Awst 2013, fod Adolygiad Cymheiriaid diweddar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ysgogi'r Cyngor i weithredu mewn rhai meysydd a chytunwyd ar ddull gweithredu dau gam er mwyn cyflawni'r arbedion sydd eu hangen. Amcangyfrifwyd y byddai cam un o'r dull gweithredu yn cyflawni £2.3 miliwn o arbedion, ar sail y sefyllfa orau. Nodwyd y gallai cam dau o'r dull gweithredu, unwaith eto ar sail y sefyllfa orau, gyflawni tua £2.7 miliwn o arbedion pellach drwy weithredu ar ganlyniadau cynigion a nodwyd mewn adroddiadau diweddar gan ymgynghorwyr allanol (Peopletoo ac RPT Consulting).

Bydd angen i'r Cyngor ystyried yr arbedion sy'n weddill, sef £5 miliwn, ymhellach yn yr hydref ar ôl iddo dderbyn canlyniadau adolygiad presennol PricewaterhouseCoopers o'i wasanaethau cyffredinol. Yn sgil yr her ariannol anodd iawn sy'n wynebu'r Cyngor, mae'n hanfodol ei fod yn gweithredu ar frys er mwyn iddo allu gwneud penderfyniadau hyddysg ynghylch ei opsiynau a'i ofynion tymor canolig a hirdymor o ran darparu gwasanaethau. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y penderfyniadau hyn wrth ddiweddaru a diwygio ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Ymddengys fod y Cyngor bellach wedi dechrau gweithredu ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â'i sefyllfa ariannol yn sgil y negeseuon clir rydym wedi'u rhoi yn ein hadroddiadau a'n llythyrau dros y ddwy flynedd ddiwethaf a'r rheini yn adolygiad cymheiriaid allanol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2013.

Er hynny, o ystyried arwyddocâd y sefyllfa hon i hyfywedd ariannol y Cyngor yn y dyfodol, cafodd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor wybod, ar 24 Medi 2013, fod yr Archwilydd Penodedig yn ystyried a ddylai ddefnyddio ei bwerau o dan Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 i wneud argymhelliad statudol i'r Cyngor.

**Nid yw'r aelodau yn cael adroddiadau sy'n cynnwys lefel ac ansawdd y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau hyddysg a phriodol ac nid yw hanes y Cyngor o nodi a chyflawni arbedion yn gyson nac yn ddigon cadarn**

Er mwyn galluogi aelodau i wneud penderfyniadau hyddysg a phriodol ynghylch y modd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol a sut y cânt eu dylunio, mae angen i lefel ac ansawdd y wybodaeth a geir mewn adroddiadau i aelodau gan swyddogion gael eu gwella'n sylweddol. Yn aml gall adroddiadau fod yn ddryslyd, nid oes digon o dystiolaeth ynddynt ac nid ydynt bob amser yn rhoi gwybodaeth glir am resymeg argymhellion, effaith penderfyniadau na'r canlyniad os na chaiff penderfyniadau eu gwneud.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi dechrau canolbwyntio ar gyflwyno trefniadau rheoli ariannol cryfach er mwyn cyfyngu ar orwariant posibl yn 2013-14 a nodi opsiynau ar gyfer gwneud newidiadau yn y dyfodol i'r modd y darperir gwasanaethau o 2014-15 ymlaen. Mae adroddiad y Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013 bellach wedi cael ei ategu gan adroddiad pellach i'r Cyngor ym mis Awst 2013 lle ceisir cytundeb i weithredu cyfres arall o gynigion ar gyfer gwneud arbedion yn 2013-14 a 2014-15. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn ddigon manwl nac yn ddigon clir ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd i aelodau ei ddeall a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn cyfrif rhai cynigion ar gyfer gwneud arbedion ddwywaith ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth am effaith ariannol cynigion eraill, fel y newidiadau i'r polisi diswyddo.

Er gwaethaf y diffygion yn ansawdd adroddiadau allweddol, mae'n amlwg bod angen i'r ffocws a'r cymhelliant newydd hwn gael ei gynnal a pharhau drwy gydol 2013-14 a thu hwnt er mwyn i'r Cyngor ateb yr heriau ariannol, na welwyd mo'u tebyg o'r blaen, a wynebir ganddo. Bydd angen i aelodau gael y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol y Cyngor gan swyddogion yn ystod 2013-14, gan gynnwys manylion y sefyllfa ragamcanol ar 31 Mawrth 2014. Mae angen rhoi esboniadau clir er mwyn cadarnhau a gaiff cynlluniau arbed a chyllidebau portffolio cytbwys eu cyflawni.

Nid yw hanes y Cyngor o nodi a chyflawni arbedion yn gyson nac yn ddigon cadarn. Er enghraifft, y pwysau cost unigol mwyaf yn y gyllideb refeniw yw gwasanaethau gofal yn y gymuned. Ym mis Hydref 2012, sefydlodd y Cyngor Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol i adolygu sefyllfa ariannol gyffredinol Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn nodi opsiynau i leihau gwariant. Nododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen nifer o arbedion a gafodd eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2013. Roedd yr aelodau o'r farn bod y rhain yn afrealistig ac yn anymarferol ac ni chafodd unrhyw gynnig ei argymell gan y Pwyllgor Craffu ar gyfer ei weithredu.

Fodd bynnag, yn fwy diweddar, cydnabu'r Cyngor fod angen ailystyried cynigion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac maent bellach wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor. Yn 2012-13, cytunodd y Cyngor ar gyfres o gynigion i arbed arian a oedd yn gyfwerth ag £1.860 miliwn i'w cyflawni yn 2013-14 er mwyn mynd i'r afael â phwysau cost a nodwyd. Ym mis Mehefin 2003, nododd y Cyngor nad oedd modd cyflawni £328,000 o'r arbedion yn 2013-14 ond ni roddwyd digon o fanylion i egluro pam. Fodd bynnag, mae'r adroddiad diweddaraf ym mis Medi 2013 bellach yn nodi nad oes modd cyflawni £426,000 o'r arbedion. Yn aml, nid yw'r adroddiadau monitro yn nodi'n glir pa gynlluniau amgen a gyflwynir i bontio'r bwlch hwn neu ba gamau a gymerir i leihau gwariant mewn meysydd eraill.

**Er bod y Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol â llai o arian, mae wedi cynyddu ei wariant drwy ddefnyddio Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor ac nid yw cynaliadwyedd hirdymor dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau yn glir**

Hefyd, yn ddiweddar, rydym wedi adolygu'r ffordd y mae rhai o wasanaethau'r cyngor yn ymdopi â llai o adnoddau. Daethom i'r casgliad, er bod y Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol â llai o arian, fel llawer o gynghorau eraill, mae wedi cynyddu ei wariant drwy ddefnyddio Cronfa wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor yn ogystal â gweithredu arbedion. Fodd bynnag, gyda phwysau galw parhaus, mae risg bod rhai gwasanaethau’n dod yn anghynaladwy yn ariannol. Gwnaethom nodi nad oedd y gwaith o gyflawni targedau cymeradwy ar gyfer arbedion o fewn gwasanaethau wedi bod yn llwyddiannus bob amser. Daethom i'r casgliad fod cynaliadwyedd hirdymor dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau yn aneglur a bod rhai gwasanaethau'n ymdopi â risgiau sylweddol.

Mae'r Cyngor wedi penodi ymgynghorwyr i nodi arbedion ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn ystod hydref 2013. Cydnabyddir na fydd y gwaith hwn yn cyfrannu'n sylweddol at yr arbedion uniongyrchol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu gwneud dros yr wyth mis nesaf ond gallai helpu i gyflawni arbedion yn 2014-15. Fodd bynnag, nid yw’r manylion am ba gamau a gaiff eu cymryd wedi’u cymeradwyo’n derfynol eto.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ailstrwythuro ei uwch dîm rheoli ac wedi lleihau nifer y prif swyddogion a phenaethiaid gwasanaeth o 24 i 17. Bydd y lleihad hwn yn arbed bron £1 filiwn i'r Cyngor dros y pum mlynedd nesaf. Er y bydd y gwaith ailstrwythuro hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ac atgyfnerthu gallu ac adnoddau yn y ganolfan gorfforaethol, mae'n lleihau gallu ac adnoddau ymhellach o fewn yr uwch grŵp arwain.

**Nid yw’r Cyngor wedi mynd i’r afael â’r anghysondebau sylweddol o ran perfformiad gwasanaethau yn ddigon dybryd**

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn 2013, deuthum i’r casgliad fod perfformiad y Cyngor yn gymysg, gydag amrywiadau mawr rhwng gwahanol wasanaethau, a bod angen i’r Cyngor wneud mwy o waith i fynd i’r afael â’r heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y mae Blaenau Gwent yn eu hwynebu. Daethom i’r casgliad hwn o ganlyniad i’r canfyddiadau canlynol:

- Mae’r Cyngor yn cefnogi oedolion sy’n agored i niwed i barhau’n annibynnol ac mae’n perfformio’n dda o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru ar y cyfan, ond mae gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol ac maent yn debygol o fod yn anghynaladwy heb adnoddau ychwanegol na ffyrdd newydd o weithio.
- Erys gwasanaethau addysg yn anfoddhaol o hyd.
- Mae’r dirwasgiad economaidd presennol yn cyfrannu at ddiweithdra cynyddol ac mae nifer y busnesau preifat newydd ym Mlaenau Gwent wedi lleihau er gwaethaf buddsoddiad sylweddol gan y Cyngor. O ran cystadleurwydd, Blaenau Gwent yw’r ardal leiaf atyniadol o ran mewnfuddsoddi yn y DU.
- Nid yw’n amlwg a yw buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn gwella cyflwr y ffyrdd ym Mlaenau Gwent. Mae diogelwch fel y’i mesurir gan ddamweiniau ar y ffordd wedi

gwella'n sylweddol ond nid yw'r Cyngor wedi annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

- Nid yw gweithgarwch adfywio canol trefi yn arwain at welliannau sylweddol i ddinasyddion.
- Mae perfformiad o ran creu amgylchedd glân, diogel a chynaliadwy a gwella prosesau rheoli gwastraff a gwasanaethau ailgylchu yn gwella ond ar sail rhai dangosyddion mae'r Cyngor dipyn yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r ffordd y prosesir ceisiadau Budd-dal Tai yn gwella.
- Mae'r Cyngor yn gwella ei wasanaethau Cymraeg ac mae mwy o waith yn yr arfaeth ar gyfer 2013-14.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013, nodais fod gallu ac adnoddau'r Cyngor i lywio gwelliant yn gyfyngedig ac mae'r newidiadau a wnaed yn ddiweddar yn mynd i'r afael â mater hwn. Fodd bynnag, mae'r lleihad cyffredinol yn nifer yr uwch reolwyr yn peri risg na fydd y Cyngor yn gallu rheoli na chyflawni gwelliant yn y dyfodol. Er bod y Cyngor bob amser yn croesawu gallu, adnoddau a chymorth allanol ychwanegol ac wedi gwneud cais amdanynt dros y flwyddyn ddiwethaf, mae lefel y cymorth a'r ymyrraeth allanol a roddir i'r Cyngor gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Comisiynydd Addysg, ymgynghorwyr, Uned Ddata Llywodraeth Leol ac eraill yn codi amheuon ynghylch gallu'r Cyngor i reoli ei faterion ei hun yn effeithiol heb ddibynnu fwyfwy ar gymorth allanol i wella.

### Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio gwelliant

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu'r gwaith o gyflawni ei Raglen Adfer Gorfforaethol a dros y flwyddyn ddiwethaf mae wedi dechrau mynd i'r afael ag anghysondebau a gwendidau o ran trefniadau cynllunio busnes, rheoli risg a hunanwerthuso gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn ymgorffori dulliau gweithredu corfforaethol newydd ym mhob un o'r meysydd hyn a, gyda chymorth allanol gan Uned Ddata Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn atgyfnerthu'r elfennau craidd hyn o brosesau cynllunio gwelliant y Cyngor. I lawer o wasanaethau, hon yw'r flwyddyn gyntaf o weithredu'r dulliau corfforaethol newydd hyn ac rydym yn cydnabod bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo o sail isel i rai gwasanaethau. Serch hynny, dylai'r gwaith o gyflwyno ac ymgorffori'r trefniadau newydd hyn alluogi'r Cyngor i ddechrau mynd i'r afael â'r gwendidau sylfaenol a nodwyd gennym yn flaenorol.

Mae cryn dipyn o'r gwaith hwn yn cael ei gydgysylltu drwy grŵp mewnol y Rhwydwaith Gwella Corfforaethol, sy'n cynnwys aelodau o bob Cyfarwyddiaeth ac sy'n atebol am ysgogi gwelliannau mewn rheoli perfformiad. I gefnogi gwaith y Rhwydwaith, mae'r Cyngor wedi gwneud nifer o benodiadau allweddol yn ddiweddar o fewn y ganolfan gorfforaethol. Mae'r swyddi hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am gynllunio gwelliant, rheoli perfformiad, gwasanaethau democrataidd a rheoli adnoddau dynol.

### Mae'r aelodau yn dangos awydd i ddilyn prosesau craffu a gwneud penderfyniadau effeithiol

Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud peth cynnydd yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau diwylliannol a gwendidau ymddygiadol sydd wedi bod yn destun craffu dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi gweld gwelliant ym maes holi a herio gan aelodau a mwy o awydd i ddwyn swyddogion i gyfrif. Er enghraifft, nodwyd bod rhai o'r cyfarfodydd craffu yn cael eu cadeirio'n fwy effeithiol bellach ac mae aelodau'n canolbwyntio ar herio gwasanaethau mewn modd priodol nad yw'n wrthdrawiadol.

Fodd bynnag, erys gwendidau hirsefydledig o ran effeithiolrwydd rhai pwyllgorau craffu, a nodwyd gennym yn flaenorol. Mae'r gwendidau hyn yn cynnwys ansawdd gwael rhai adroddiadau yn llesteirio gwaith craffu effeithiol ac anallu rhai swyddogion i ymateb yn ddigonol i gwestiynau ac ymholiadau gan aelodau. Caiff gwaith craffu effeithiol ei atal pan nad yw'r swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd yn gallu siarad am eitemau, ateb cwestiynau aelodau na chyflwyno adroddiadau'n effeithiol. Fel y saif, rydym o'r farn nad yw rhai swyddogion wedi gwneud y newid sylweddol sydd ei angen i gefnogi prosesau llywodraethu effeithiol ac atebolrwydd priodol eto.

Gallai ansawdd y wybodaeth y mae'n rhaid seilio penderfyniadau pwysig arni fod yn gliriach, gyda gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno'n gliriach a chynigion yn cael eu costio'n llawn. Byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd bod y penderfyniadau hanfodol y mae aelodau'n eu gwneud neu'n craffu arnynt yn seiliedig ar yr holl ddata perthnasol. Er mwyn gwella ansawdd adroddiadau, mae'r Cyngor wedi manteisio ar gymorth cymheiriaid gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn adolygu dull y Cyngor o wneud gwaith cynllunio ac adrodd ariannol.

### Nid yw systemau i reoli gwybodaeth am berfformiad mewn rhai gwasanaethau yn gyson nac yn gadarn o hyd

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Mae gan y Cyngor systemau sefydledig i gyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ac rydym wedi archwilio'r systemau hyn yn ddiweddar i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Mae'r holl fesurau a archwiliwyd yn fesurau a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion. Canfuwyd, o'r deg mesur a archwiliwyd, fod dau wedi'u diwygio oherwydd gwallau cyfrifo.

Yn ogystal, mae dau fesur sydd wedi'u hamodi ar gyfer pob cyngor yng Nghymru, sef: nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn; cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu'n hŷn. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar berfformiad gwasanaethau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.

### Hynt cynigion ar gyfer gwella

Rwyf wedi nodi o'r blaen nifer o argymhellion a chynigion ar gyfer gwella a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Caiff cynnydd mewn perthynas â'r materion hyn fel y'u nodwyd gan y Cyngor ei grynhoi isod a'i ddisgrifio'n fanylach yn Atodiad 1.

Mae'r Cyngor wedi derbyn pob un o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ein gwaith diweddar ond mae cynnydd y Cyngor o ran ymateb i'n canfyddiadau yn anghyson. Gwnaed cynnydd da mewn rhai meysydd, er enghraifft, gwaith y Cyngor i sicrhau bod ei wasanaethau'n cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg ac atgyfnerthu ei fframwaith ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Fodd bynnag, erys gwaith i'w wneud mewn meysydd eraill fel datblygu safonau gwasanaeth. Lle bo camau'n mynd rhagddynt, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran eu gweithredu ac yn llunio adroddiadau arno. Caiff rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ei rhoi ar wahân mewn diweddariadau interim i'r Cyngor lle y bo'n briodol.

## Argymhellion pellach/cynigion ar gyfer gwella

Rwyf wedi nodi isod ddau argymhelliad statudol ar gyfer gwella o dan adran 19 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhellion hyn yn gyhoeddus o fewn 30 diwrnod.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Ymdrin â gwendidau mewn prosesau cynllunio ariannol drwy wella ansawdd adroddiadau i aelodau ar gynigion ar gyfer arbedion cyllidebol drwy nodi'r canlynol yn glir:<br>• effaith ddisgwyliedig penderfyniadau;<br>• yr amserlen weithredu;<br>• faint o arbedion a gyflawnir ac erbyn pryd;<br>• pwy sy'n atebol am gyflawni arbedion;<br>• sut y caiff y gwaith o gyflawni arbedion ei fonitro. |
| A2 | Atgyfnerthu'r broses o graffu ar benderfyniadau drwy wneud y canlynol:<br>• ymdrin â diffygion yn ansawdd adroddiadau i bwyllgorau craffu;<br>• sicrhau bod swyddogion yn cael hyfforddiant priodol ar rôl craffu a chyflwyno gwybodaeth i aelodau;<br>• sicrhau bod y swyddogion cywir yn mynychu pwyllgorau craffu i gyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau aelodau. |

Yn ogystal, rwyf wedi argymell y dylai'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ddefnyddio ei phwerau o dan Adran 28 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i roi cymorth i'r Cyngor. Ni chredaf fod gan y Cyngor y gallu i nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'i anawsterau ariannol difrifol na'u gweithredu. Mae angen darparu cymorth allanol profiadol â'r sgiliau priodol i alluogi'r Cyngor i gymryd y camau prydlon a sylweddol sydd eu hangen nawr.

Nid yw'r llythyr hwn yn awgrymu unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2013-14. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Non Jenkins – Rheolwr

Nick Selwyn - Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Argymhellion Statudol | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 1. Datblygu a chytuno ar gynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr Adroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys CLlLC a Llywodraeth Cymru. | Er bod peth cynnydd wedi'i wneud o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith, nid yw wedi'i ymgorffori na'i brif ffrydio eto ym mhob rhan o'r sefydliad.<br>Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o'r camau a gymerwyd i gwblhau rhai camau gweithredu (cytunwyd ar hyn mewn sesiynau diweddaru gyda'r Arweinyddiaeth, yr Aelod Gweithredol, Prif Weithredwr, arweinydd Rheoli Perfformiad y Tîm Rheoli Corfforaethol a Phennaeth Polisi a Pherfformiad). Cofnodir archwiliad o'r camau a gwblhawyd drwy Ffynnon. Cafodd y rhaglen gyflawni ei hadolygu'n ddiweddar gan y Pwyllgor Gweithredol/Tîm Rheoli Corfforaethol ac yna'r Tîm unwaith eto ar 2il Gorffennaf ac efallai y caiff rhai camau eu mapio'n gynlluniau gwasanaeth perthnasol. | Argymhelliad statudol yn mynd rhagddo |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 1. Cymhwyso'r dull o bennu Amcanion Gwella sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion, i'r broses o gynllunio, darparu, monitro ac adrodd ar yr amrywiaeth llawn o swyddogaethau a gweithgareddau'r Cyngor. | Ni nodwyd unrhyw gynnydd. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 2. Gwerthuso ac adrodd ar effaith cyllidebau llai ar wasanaethau rheng flaen er mwyn nodi risgiau sy'n deillio o benderfyniadau ynghylch dadfuddsoddi ac ymdrin â hwy. | Mae'r adroddiad asesu effaith seiliedig ar wasanaeth wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r Cyngor. Nid yw argymhellion yr adroddiad hwn wedi cael eu pennu'n derfynol eto. Mae'r Cyngor bellach yn rhoi gwybodaeth gyfredol reolaidd am ardal adfywio'r Gweithfeydd a Six Bells i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu ar yr Amgylchedd ac Adfywio. Cytunwyd ar fframwaith rheoli prosiect ar gyfer y Cyngor a sefydlwyd gweithgor i arwain y gwaith o'i weithredu, gan adrodd yn ôl i'r Rhwydwaith. Datblygwyd modiwl hyfforddi rhagarweiniol, sy'n canolbwyntio ar yr angen i reoli prosiect yn effeithiol a manteision hynny. Caiff modiwl hyfforddi arall ei ddatblygu a fydd yn canolbwyntio ar gyflawni prosiect a defnyddio fframwaith BG a dogfennaeth templed gysylltiedig. Caiff y defnydd o'r fframwaith a'r templedi ei dreialu ar hyn o bryd mewn perthynas â nifer o brosiectau ym mhob rhan o'r sefydliad.<br>Drwy arsylwi'r Pwyllgor Gweithredol, y Cyngor a'r Pwyllgor Craffu rydym wedi nodi problem barhaus o ran ansawdd gwybodaeth/opsiynau a gyflwynir i aelodau a'u gallu/parodrwydd i wneud penderfyniadau hyddysg ar y materion hyn. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |
| 3. Dylai'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella a nodwyd mewn adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddio blaenorol. | Mae'r cynllun monitro cynnydd ar waith o fewn y Cyngor a rhydd y wybodaeth ddiweddaraf chwarterol i gyfarfod y rheoleiddwyr. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth gyfredol ychwanegol am y gyfran o'r grant Cytundeb Deilliannau a ddefnyddiwyd i gefnogi gwelliant corfforaethol, gan fod llawer o'r camau a nodwyd wedi cael eu datblygu'n benodol i gefnogi cynigion Swyddfa Archwilio Cymru i wella'r broses o gyflawni'r rhaglen Asesu Corfforaethol. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 4. Gwella gwybodaeth am gostau uned, costau gweithgareddau, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill i gefnogi penderfyniadau ariannol hyddysg. | Caiff data ar gostau uned ei gasglu yn yr adran gwasanaethau gwastraff a'i ddefnyddio fel rhan o'r mesurau perfformiad. Caiff y data hwn ei gasglu ar gyfer Gwasanaethau Gwastraff ledled Cymru drwy'r CSS a grŵp meincnodi CLILC. Caiff adroddiad blynyddol ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru a'i gyflwyno i fwrdd y rhaglen weinidogol. Nid yw'n glir beth sy'n digwydd o ran gwasanaethau eraill. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |
| 5. Datblygu dull o herio gwerth am arian a chynaliadwyedd patrymau a dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau ym mhob gwasanaeth a'i gymhwyso'n gyson. | Bydd cynllun gweithredu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cynnwys adolygiadau o wasanaethau ar draws portffolios, a fydd (ymhlith pethau eraill) yn ystyried gwasanaethau statudol/anstatudol i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol:<br>• Tîm Gwella Gwasanaethau wedi'i sefydlu;<br>• y Pwyllgor Gweithredol yn cymeradwyo'r broses;<br>• adolygiad wedi dechrau. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |
| 6. Parhau i gydymffurfio'n well â'r Mesur a chanllawiau cysylltiedig, atgyfnerthu trefniadau hunanasesu a gwella systemau adrodd ar berfformiad. | Bu datblygiadau sylweddol o ran trefniadau hunanwerthuso, cynllunio busnes a gwasanaethau a rheoli risg.<br>Mae'r Cyngor hefyd wedi gwella ei ddefnydd o gymariaethau perfformiad, a chynhaliodd sesiynau Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a mesur amcanion gwella newydd. Mae cyfarfodydd o'r Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor yn dal i gael gwybodaeth gyfyngedig am berfformiad. Mae'r wybodaeth a gânt yn brin o fanylion. Ni chreffir ar wybodaeth am berfformiad mewn gwirionedd. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 7. Nodi sut y bydd y gwelliannau a nodir yn ei amcanion o fudd i ddinasyddion, a sicrhau y gellir eu cyflawni yng nghyd-destun llai o adnoddau. | Datblygwyd rhaglen **Panel Dinasyddion** 2013-14 gan gynnwys grwpiau ffocws ar Ddiwygio Lles a Chamddefnyddio Alcohol, arolwg canfyddiadau o Ansawdd Bywyd dros yr haf a thrafodaethau a gweithdai ar ddinasyddiaeth weithredol.<br>Cynhaliwyd y **Cynllun Integredig Sengl** 'Gwneud Gwahaniaeth' rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Mawrth 2013. Cafwyd dros 150 o ymatebion yn dilyn 700 o ymwelwyr â'r wefan. Roedd yr ymatebion yn amrywio ac yn cwmpasu ardaloedd demograffig a daearyddol allweddol.<br>Datblygwyd **Strategaeth Ymgysylltu** er mwyn sicrhau bod Blaenau Gwent mewn sefyllfa briodol i fodloni'r gofynion statudol o *Cydamcanu: Cydymdrechu*.<br>Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad yn gwahodd trigolion i leisio barn ar gynigion Cyngor Blaenau Gwent ar gyfer Targedau Arbedion yn 2013/14 yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2013. Cafwyd adborth gan 106 o bobl.<br>Hefyd cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar ei Amcanion Gwella arfaethedig, rhwng mis Ebrill a mis Mai 2013. Cafwyd adborth gan 127 o bobl. | Gorffen |
| 8. Datblygu mesurau llwyddiant wedi'u hategu gan wybodaeth am berfformiad y Cyngor ar hyn o bryd, ei dargedau, dadansoddiad o gostau a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chynghorau eraill. | Cafodd yr amcanion gwella eu cwblhau'n ddiweddar ar gyfer 2013/14 a gwnaed cryn dipyn o waith i wella ansawdd cynnwys a chyflwyniad y data ynddynt. Erys problemau gyda rhai o'r amcanion gwella o ran ehangder a chysondeb. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi. |
| 9. Nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn. | | Menter Cyllid Preifat heb ddechrau |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 10. Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddiwygio'r Blaengynllun ar yr Amcanion Gwella a mynd i'r afael â chasgliadau'r ymarfer hwnnw. | Cynhaliwyd ymarfer sgrinio Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran y Cynllun Gwella Corfforaethol a phob amcan gwella. Mae'r ymarfer hwn yn nodi a oes angen cynnal Asesiad mwy cynhwysfawr o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yn ogystal, cynhelir Asesiad o'r fath ar gynigion ar gyfer arbedion a gyflwynir.<br>**Noder bod y cynnig hwn yn ymwneud â'r Cynllun Gwella Corfforaethol a ardystiwyd gan y Cyngor ac yn yr ystyr hwnnw mae wedi cau** (yn amlwg mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn parhau fel rhan o bolisïau llywodraethu allweddol). Cafodd ymarfer sgrinio Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ei gynnal hefyd gyda phartneriaid ar y cynllun integredig sengl drafft (y mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn gysylltiedig ag ef). | Gorffen |
| 11. Gwella ansawdd y wybodaeth a ddefnyddir i nodi'r effaith ariannol debygol a gaiff y galw cynyddol am wasanaethau, newidiadau demograffig ac asesiad o ddarpariaeth gwasanaethau statudol ac anstatudol y Cyngor. | Dim diweddariad (gweler 4 a 5). | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |
| 12. Diwygio'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i gynnwys cynllun gweithredu sy'n dangos sut yr eir i'r afael â'r diffygion ariannol a ragwelir a sut y caiff pwysau ar wasanaethau eu rheoli yn y dyfodol. | Dim diweddariad (gweler 4 a 5). | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 13. Mynd i'r afael â gwendidau o ran amrywiaeth a chwmpas adroddiadau prosiect drwy gynnwys:<br>• gwybodaeth am berfformiad cyllidebol ar hyd y flwyddyn sy'n dangos cyfanswm cost y prosiect, ffynonellau ariannu, ymrwymiadau, arian nas clustnodwyd ac arian sydd heb ei sicrhau eto;<br>• risgiau'r prosiect a gweithgarwch lliniaru i fynd i'r afael â'r rhain;<br>• asesiad o gynnydd yn erbyn targedau a chamau gweithredu cynllun gweithredu'r prosiect gan gynnwys cerrig milltir prosiectau unigol. | Adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Ionawr 2013 - mae camau'n deillio o'r adroddiad wedi'u datblygu bellach. (Gweler 2) | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |
| 14. Adolygu'r ystod bresennol o ddata perfformiad prosiectau a sicrhau bod amrywiaeth cynhwysfawr o fesurau perfformiad priodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar waith ar gyfer prosiectau mawr a fydd yn ei gwneud yn bosibl i asesu effaith a chanlyniadau. | Caiff data ar berfformiad prosiectau gan ddefnyddio'r templed Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau ei baratoi sy'n gysylltiedig â'r broses cynllunio busnes. Sefydlwyd Cofrestr Prosiectau gorfforaethol a gynhelir gan y Tîm Gwella Gwasanaethau. Bydd y gofrestr prosiectau hon yn galluogi'r Awdurdod i fesur effaith a chanlyniadau prosiectau mawr yn effeithiol. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 15. Cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar berfformiad prosiectau mawr i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu bob chwarter gan roi'r diweddaraf ar berfformiad a chynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu prosiectau er mwyn cryfhau atebolrwydd dros y prosiect | Caiff data ar berfformiad prosiectau gan ddefnyddio'r templed Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau ei baratoi er mwyn dechrau cyflwyno adroddiadau chwarterol gan adeiladu ar yr adroddiadau presennol i'r adroddiad craffu. Templed wedi'i gwblhau a gwybodaeth bresennol yn cael ei throsglwyddo i'w defnyddio yn yr adroddiad chwarterol nesaf. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |
| 16. Cydymffurfio'n well â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy:<br>• mynegi barn y Cyngor o'i lwyddiant o ran cyflawni ei Amcanion Gwella;<br>• defnyddio sail dystiolaeth ehangach o ran gwybodaeth er mwyn i'r Cyngor allu asesu a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella;<br>• ymestyn y defnydd o wybodaeth gymharol â chyrff tebyg eraill;<br>• sicrhau bod ei asesiad o berfformiad mor hygyrch â phosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid. | Mae'r Cyngor wedi gwneud rhagor o waith i sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud ag amcanion gwella yn fwy cadarn. Er enghraifft, mae blaengynllun cam 1 Cynllun Gwella Corfforaethol 2013/14 yn cynnwys, ar gyfer pob amcan gwella, ddatganiad gwerthusol, targedau cliriach, adnoddau cysylltiedig ac atebolrwydd sy'n gysylltiedig â'r swyddog cyfrifol a'r pwyllgor portffolio a chraffu perthnasol.<br>Mae'r gwaith o gynnwys sail dystiolaeth ehangach a'r defnydd o wybodaeth gymharol hefyd wedi datblygu ac mae disgwyl i'r gwaith hwn barhau fel rhan o'r gwaith hunanwerthuso a chynllunio busnes sy'n cyrraedd y cam nesaf (fel y nodwyd uchod).<br>Fel rhan o'r datblygiadau corfforaethol i hunanwerthuso, cynhelir trafodaethau ar hyn o bryd i adolygu cwmpas y grwpiau monitro arfaethedig ar gyfer y Cynllun Gwella Corfforaethol i'w cynnwys wrth ddatblygu'r systemau herio mewnol. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 17. Gwella gwaith rheoli perfformiad drwy:<br>• atgyfnerthu gallu corfforaethol er mwyn ysgogi gwelliant;<br>• cytuno ar gyfrifoldebau strategol am reoli perfformiad;<br>• datblygu a chyflwyno trefniadau mwy cydgysylltiedig, cydlynus a chadarn o ran rheoli perfformiad, cyflwyno adroddiadau arno, ei werthuso a'i wella. | Adolygwyd gallu ac adnoddau corfforaethol i lywio gwelliant. Datblygwyd trefniadau newydd i gyfuno gallu ac adnoddau gan gynnwys enwebu aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol fel y cyfarwyddwr arweiniol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r trefniadau newydd, adolygu aelodaeth y Rhwydwaith a sefydlu'r grwpiau strategol i fonitro hynt tri chanlyniad y Cynllun Gwella Corfforaethol, y cadeirir pob un gan aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol.<br>Caiff y Rhwydwaith ei gynorthwyo gan swyddogion perfformiad meysydd gwasanaeth. Mae'r Rhwydwaith wedi cael ei sefydlu ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd. Roedd pob aelod o'r Rhwydwaith yn bresennol yn y gweithdai hunanwerthuso diweddar. Sefydlwyd is-grŵp o'r Rhwydwaith yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth i ystyried y fformat ar gyfer cyflwyno adroddiadau a ddefnyddir yn 2013/14. Fel rhan o'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi, nododd aelodau hyfforddiant Rheoli Perfformiad a chaiff aelodau'r Rhwydwaith eu cynnwys yn y gwaith o gyflwyno'r sesiwn ryngweithiol a gynllunnir ar gyfer mis Medi.<br>Bydd y tîm perfformiad corfforaethol yn darparu'r cyfeiriad y cytunir arno gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a bydd yn llywio gwelliant ar bob agwedd ar berfformiad a gwelliant (gan gynnwys gwybodaeth a roddir i'r pwyllgor craffu) drwy'r trefniadau newydd. Bydd hefyd yn rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad i'r grwpiau monitro strategol mewn perthynas â chanlyniadau'r Cynllun Gwella Corfforaethol.<br>Fel rhan o'r datblygiadau corfforaethol i hunanwerthuso, cynhelir trafodaethau ar hyn o bryd i adolygu cwmpas y grwpiau monitro arfaethedig ar gyfer y Cynllun Gwella Corfforaethol i'w cynnwys wrth ddatblygu'r systemau herio mewnol. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd ar ddiwedd Gorffennaf 2013 | Statws |
|---|---|---|
| 18. Sicrhau bod gan bob gwasanaeth drefniadau effeithiol i reoli perfformiad, cyflwyno adroddiadau arno, ei werthuso a'i wella sy'n cael eu cymharu'n gyson â safonau gofynnol y cytunwyd arnynt ac sy'n destun craffu a herio cadarn. | Er mwyn datblygu'r argymhelliad hwn ar lefel cyfarwyddiaeth, mae Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio wedi gwneud Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am wella'r trefniadau i reoli, adrodd a gwerthuso perfformiad y gyfarwyddiaeth, a gefnogir gan grŵp ymroddedig o swyddogion perfformiad y gyfarwyddiaeth. Ar lefel cyfarwyddiaeth, mae Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio wedi cyfuno'r prosesau adrodd i'r pwyllgor craffu drwy un adran ac awdur adroddiad.<br>Yn ogystal, cynhelir adolygiad cymheiriaid gan grŵp bach o uwch swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth i gynlluniau busnes a chofrestrau risg 2013/14 er mwyn craffu ar waith y gyfarwyddiaeth gyfan a'i herio.<br>Mae gwaith datblygol ar ran y pwyllgor craffu wedi arwain at gyflwyno prosesau a gweithdrefnau newydd. Mae gwaith wedi cael ei wneud i ymgorffori'r trefniadau newydd yn gyson ym mhob pwyllgor. Mae prosesau gwerthuso wedi cael eu datblygu ac mae meysydd eraill i'w gwella wedi cael eu nodi fel rhan o'r gwaith a wnaed yn ddiweddar ar astudiaeth dysgu a rennir Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff cynllun gweithredu ar gyfer gwaith gwella a monitro pellach ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith hwn. | Menter Cyllid Preifat yn mynd rhagddi |